CYNLLUN BUSNES

2012-2015

SIÂN ELEN TOMOS
PRIF WEITHREDWR

1.0 Cyflwyniad

Dathlodd GISDA ei Ben-blwydd yn 25ain oed yn 2011. Mae'r Cwmni wedi datblygu llawer dros y chwarter canrif ac wedi rhoi gwasanaeth o safon uchel i nifer o bobol ifanc. Gwirfoddolwyr yn ardal Caernarfon a fu'n gyfrifol am ddyfodiad GISDA a mawr ddiolch sydd iddynt am eu brwdfrydedd, gweledigaeth a'u dyfalbarhad. Hyd heddiw mae ffocws y gwasanaeth ar bobl ifanc sydd rhwng 16 a 25 sydd nail ai yn ddigartref neu ar fin dod yn ddigartref neu sydd angen cefnogaeth i gadw eu tenantiaeth.

Erbyn heddiw, Mai 2012 rydym yn darparu gwasanaeth i 56 uned o dan ganllawiau cefnogi pobl ac yn cefnogi dros 50 o bobl ifanc ôl ofal yn ychwanegol i hyn. Rydym yn is lesu eiddo gan Dai Eryri a Thai Clwyd.

Rydym yn gwasanaethu dros Wynedd gyfan, gyda 3 Swyddfa. Rydym yn cyflogi 31 o staff ac rydym yn falch o nodi ein bod wedi llwyddo i gael Dyfarniad Buddsoddwyr Mewn Pobl yn dilyn adolygiad ym Mawrth 2012. Rydym hefyd wedi bod yn llwyddiannus i gael dyfarniad 'CLYWED' sydd yn datgan ein bod wedi cyrraedd y safon o wrando ar bobl ifanc a'u clywed.

Bydd y Cynllun Busnes hwn yn arwain y tîm Rheoli ac yn amlinellu cyfeiriad GISDA dros y tair blynedd nesaf gan adnabod y blaenoriaethau. Serch hyn mae ansicrwydd fwy nac erioed i elusen gymharol fach fel GISDA o ran incwm a grantiau ac ati felly gall y cynllun hwn newid petai'r sefyllfa ariannol newid yn sylweddol.

1.1 Pobl ifanc yn 2012

Mae staff wedi datblygu sgiliau arbennig o weithio gyda rhai o bobl ifanc fwyaf bregus ein cymdeithas. Ein nod yw gallu cynnig amrywiaeth o wasanaeth ond yn fwy na hynny gwasanaeth sydd wedi'u deilwro ar gyfer yr unigolyn lle bynnag y mae'n byw gan geisio'i gyfeirio ar hyd y trywydd cywir i'w gynorthwyo i fod mor annibynnol â phosibl. Mae rhai pobl ifanc yn cael eu cyfeirio atom ac yn aml ddim ond angen cyngor tymor byr sydd yn newid eu byd ac eraill yn derbyn cefnogaeth am flynyddoedd. Ni fyddem yn dod ag unrhyw wasanaeth i ben oni bai ein bod mewn cytundeb gyda'r person ifanc eu bod yn barod i beidio derbyn cefnogaeth.

Mae'r hinsawdd economaidd wedi cael effaith andwyol iawn ar bobl ifanc yn gyffredinol ond i bobl ifanc sydd yn fregus a heb gefnogaeth mae'r sefyllfa yn eithaf tywyll ar hyn o bryd. Gyda sawl cynllun gwaith y Llywodraeth wedi methu, diffyg twf yn yr economi, diweithdra ymysg yr ifanc yr uchaf a fu erioed a diffyg cyfleoedd yn gyffredinol. Mae'r sefyllfa yn debyg iawn ar hyd a lled y wlad ac yn wir drosodd i'r cyfandir yn Ewrop. Mewn adroddiad yn dilyn 'riots' yn Lloegr yn 2011 roedd tystiolaeth gref yn dangos bod nifer fawr o'r troseddwyr yn bobl ifanc dan 25 oedd yn ddi waith a ddim mewn hyfforddiant. Mae diweithdra yn cael effaith ar iechyd meddwl pobl ifanc ac yn aml mae perygl iddynt droi tuag at ffyrdd o ddianc oddi wrth eu problemau Yn ychwanegol at hyn mae newidiadau a thoriadau ym Mudd-daliadau yn mynd i effeithio pobl ifanc mewn mwy nag un ffordd. Mae'r ffordd y bydd budd-dal tai yn cael ei dalu i gwmnïau fel GISDA yn newid a fydd yn y pendraw yn effeithio pobl ifanc.

Rydym yn GISDA yn brofiadol iawn ac yn ymwybodol iawn o faterion sydd yn effeithio ein pobl ifanc yn ddyddiol, rydym yn adnabod eu hanghenion ac yn addasu yn ôl yr angen i ymateb i'w galw.

Dros y blynyddoedd rydym wedi meithrin amryw o rwydweithiau fel y gallwn weithio mewn modd amlasiantaethol ac integredig i sicrhau bod y person ifanc wastad yn y canol.

Pobl ifanc yw canolbwynt GISDA a mawr werthfawrogwn eu barn a'u cyfranogiad bob amser.

2.0 Cyd-destun lleol a chenedlaethol

Mae'r Ceidwadwyr wedi ffurfio clymblaid gyda'r Rhyddfrydwyr yn y senedd yn Llundain ac yn rheoli'r Deyrnas Unedig. Llafur sydd yn arwain yn y Cynulliad ac yn arwain yng Nghymru. Yn gyffredinol mae 2012 yn flwyddyn anodd gan fod dyled y Wlad yn anferthol ond mae costau byw wedi codi a chyfradd llog ar ei isaf. Cadarnhawyd mis Ebrill 2012 bod Prydain yn ôl mewn dirwasgiad eto am yr 2il dro ers 2009 lle gwelwyd 2 chwarter blwyddyn rhwng Hydref a Mawrth 2012 gyda'r GDP wedi gostwng ar gyfartaledd o 0.2%. Mae cymaint llai o adeiladu a chymaint llai o wario ar wasanaethau ac ar amser ysgrifennu'r cynllun hwn mae'n anodd rhagweld na fydd fawr o dyfiant yn yr economi yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Y sefyllfa wleidyddol yn lleol yng Ngwynedd yw mai'r etholiadau Cyngor Sir leol wedi bod ar Fai 3ydd 2012 ac ni lwyddodd yr un Blaid ennill blaenoriaeth ar y Cyngor. Mae 74 sedd i gyd yng Ngwynedd a bu Plaid Cymru 1 yn fyr o ennill mwyafrif gyda 37 o seddi i gyd.

Mae hi'n gyfnod anoddach nag erioed i gynnal elusen o faint bychan fel GISDA ac fe welir llawer mwy o gydweithio ac yn wir uno mewn rhai achosion. Mae newid yn y ffordd mae gwaith yn cael ei gomisiynu gyda chostau ar gyfer rheoli /costau gorbenion yn lleihau yn sylweddol. Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol 2012, nid yw GISDA wedi teimlo effaith y newid hwn eto ond mae'n hanfodol bwysig ein bod yn cymryd y cyfle yn 2012-2013 i gynllunio ac ymbaratoi ar gyfer y newid hwn yn y blynyddoedd sydd i ddod. Yr un yw'r sefyllfa ar hyd a lled Cymru - gwelwyd un o Brif Elusennau Digartrefedd yr ifanc yn uno gyda mudiad arall. Mae'r ffocws yn gyffredinol boed o'r cynulliad, grantiau Ewrop a Chyngor Lleol ar gomisiynu llai o

asiantaethau ac yna is gomisiynu i elusennau eraill mewn rhai achosion. Nod GISDA yw sicrhau bod ansawdd y gwasanaeth a gynigir yr un mor safonol gan gynnal yr un lefel o wasanaeth. Mae symud tuag at weithio yn rhanbarthol yng Nghymru ac mae trafodaethau ymysg Cynghorau i uno i gyd-fynd a'r strwythur a welwyd yn y maes iechyd. Nid yw hyn wedi digwydd eto ond mae cydweithio ar lefel agos iawn yn digwydd o fewn pob Cyngor. Mae er enghraifft strategaeth Cefnogi Pobl yn nodi bod rhaid cael Bwrdd Rheoli Rhanbarthol er mwyn arwain ar y gwaith ar lefel lleol. Yn Lloegr yn wahanol i Gymru maent wedi symud oddi wrth weithio'n rhanbarthol ag yn ôl tuag at fod yn fwy 'lleol'. Yn Lloegr ychydig iawn o grantiau Cefnogi Pobl sydd ar gael, ac mae llawer mwy o bwyslais ar waith statudol. Rydym o ran hynny yn eithaf ffodus yng Nghymru.

3.0 Nod ac Amcanion GISDA

Nod

Cynnig cyfleoedd a sgiliau byw drwy ddarparu ystod eang o brofiadau i godi hyder, gwydnwch a sgiliau pobl ifanc.

Nod GISDA yw sicrhau cyfle i bobl ifanc bregus i wella ansawdd eu bywydau fel eu bod yn rhydd o unrhyw anfantais.

Amcanion

- Hybu a sicrhau cyfleoedd cyfartal i bobl ifanc i roi'r cyfle iddynt fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas y maent yn byw ynddi.

- Cynnig ac ehangu gwasanaethau i ymateb i ofynion ac anghenion ein rhanddeiliaid

- Hwyluso mynediad at wasanaethau cefnogol sy'n cyfrannu at addysg, iechyd, lles a datblygiad yr unigolyn

- Hyrwyddo dealltwriaeth o anghenion yr unigolion oddi fewn i'w cymuned

- Datblygu a chynnal perthynas gweithio gyda phartneriaethau ag asiantaethau eraill er mwyn ymestyn yr ystod o wasanaethau cefnogol

- Datblygu gweithlu proffesiynol a chymwysedig

- Sicrhau adnoddau ariannol i gynnal a datblygu gwasanaethau

- Ymgynghori gyda staff a defnyddwyr gwasanaeth ar faterion sydd efallai yn gallu effeithio arnynt

4.0 Bwrdd Rheoli

Cyng. Tudor Owen	**Cadeirydd**
Mr John Hughes Jones	**Is-gadeirydd – cefndir addysg**
Cyng. Huw Edwards	**Cynrychiolydd Cyngor Gwynedd- cefndir yn y cyfryngau**
Mr Alun Peredur Griffiths	**Cefndir Cyllid a systemau data**
Mr Alan Parry	**Cyfarwyddwr Marchnata Prifysgol Bangor**
Parch. Ron Williams	**Diddordeb yn GISDA ac aelod ers y dechrau**

Cyng. Bryn Jones	**Cynrychioli Cyngor Tref Blaenau Ffestiniog – cyfieithydd wrth ei waith.**
Dr. Vanessa Poeppinghaus	**Cefndir iechyd – Ymgynghorydd yn Ysbyty Gwynedd, Bangor**

Ni ymgeisiodd Mr. Bryn Jones am sedd ar Gyngor Tref Blaenau Ffestiniog ym mis Mai 2012 ac felly bydd Clerc y Cyngor yn trafod cynnig Cynghorydd arall o'r Dref i gynrychioli De Meirionnydd ar Fwrdd GISDA o fis Gorffennaf 2102 ymlaen.

4.1 Gwerthoedd

Mae GISDA yn credu mewn pobl ifanc, waeth beth fo'u hamgylchiadau, eu rhyw, eu hil, eu hanabledd na'u hymddygiad. Credwn mewn pobl ifanc sydd wedi eu cam-drin, pobl ifanc bregus a phobl ifanc heb gefnogaeth teulu. Byddwn yn eu cefnogi, yn sefyll yn gadarn drostynt ac yn ceisio sicrhau bob cyfle fel y gallant gyrraedd eu potensial mewn bywyd, Rydym yn gwneud hyn am ein bod yn credu mewn pobl ifanc. Ein nod yw gwella ansawdd bywyd a gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl ifanc yn ein cymdeithas.

- **Gonestrwydd**

Rydym yn darparu gwasanaeth gonest a diffuant i bobol ifanc bob amser.

- **Parch**

Rydym yn parchu'r unigolyn, parchu ei deimladau, credo a'i hawliau

- **Gwrando a Chlywed**

Rydym yn ymrwymo i wrando a chlywed llais y person ifanc gan gymryd pob cam posibl i eirioli ar ei ran. Byddwn yn cymryd pob cam posibl i ymateb i lais y person ifanc a cheisio cwrdd ag unrhyw angen os yn bosibl.

- **Hyrwyddo Cyfle Cyfartal a pharchu amrywiaeth**

Mae GISDA yn parchu unrhyw wahaniaeth ymysg staff, gwirfoddolwyr a'r defnyddwyr gwasanaeth ac yn parchu'r amrywiaeth. Wrth benodi staff newydd, dyrchafu staff presennol, derbyn cyfeiriad newydd fe sicrhawn bob amser na fyddem yn gwahaniaethu ar sail hil, lliw, tarddiad ethnig, cenedligrwydd, crefydd, anabledd, rhyw, tueddfryd rhywiol, oedran, statws priodasol, cefndir troseddu amherthnasol, cyfrifoldeb dros ddibynyddion, statws economaidd na gwerthoedd gwleidyddol.

- **Ymbweru a Galluogi**

Byddwn yn ymrwymo i sicrhau bod pob defnyddwyr gwasanaeth yn cael y cyfle i ennill y sgiliau angenrheidiol i'w ymbweru a'u galluogi i fyw bywyd annibynnol. Ein nod yw cynyddu gwydnwch a hyder pobl ifanc i sicrhau eu bod wedi'u harfogi gyda'r strategaethau i ymdopi gyda heriau bywyd.

Yn ychwanegol i'r uchod mae pob aelod o staff yn ymrwymo at werthoedd y cod ymarfer Cyngor Gofal Cymru.

Rydym hefyd fel cwmni yn awyddus i fod mor gyfeillgar â phosibl tuag at yr amgylchedd. Mae gennym god ymarfer sydd yn nodi ein ymrywmedigaeth tuag at hyn.

5.0 Swyddfeydd

Mae Tŷ Rhydalun, Penrallt Uchaf, Caernarfon yn parhau i fod yn brif swyddfa. Yma mae holl weinyddiaeth y cwmni yn cymryd lle yn cynnwys, cyfeiriadau, cyllid, marchnata a rheolaeth y cwmni. Yn ogystal mae Gwasanaeth Agor Drysau wedi'u lleoli ar y llawr uchaf.

Mae gweithwyr allweddol prosiect y gogledd i gyd wedi'u lleoli yn swyddfa yn Stryd y Plas. Nid yw mynediad i'r adeilad yn ddelfrydol yn arbennig i rieni ifanc gyda coetsys neu fynediad i rywun gydag anabledd corfforol. Serch hyn mae'r gofod ar gyfer

swyddfa yn ardderchog hefyd i'r ail lawr mae fflat rydym yn ei ddefnyddio i wneud gweithgareddau gyda'r bobol ifanc. Mae ynddo ystafell fyw, cegin, lle chwarae i blant bach, bwrdd i gael cyfarfod neu i wneud gweithgareddau celf. Y brif anfantais o'r swyddfa yma ydy nad yw'n weledol i'r cyhoedd sydd yn colli'r cyfle i ni hyrwyddo GISDA yn gyhoeddus.

Mae Staff Prosiect De Gwynedd wedi'u lleoli uwchben asiant gwerthu tai ar Brif Stryd Blaenau Ffestiniog. Eto, mae'r un materion yma megis grisiau ond mae'r swyddfa yma hefyd yn fach iawn ac mae'n anodd iawn cael preifatrwydd gyda phobol ifanc.

Mae Swyddfa fechan hefyd yn yr hostel yn Hafan, Caernarfon. Mae staff yma o 8am ymlaen ac maent yn dueddol o gawl brecwast gyda'r bobol ifanc i gael sgwrs ar ddechrau'r dydd.

Nid yw'r un o'r swyddfeydd yn gwbwl addas oherwydd cyfuniad o wahanol resymau.

6.0 Staff

Staff yw prif adnodd GISDA. Mae 31 o staff sydd yn cynnig amrywiaeth eang o brofiadau a sgiliau. Diwygiwyd strwythur staffio yn 2010 a phenderfynwyd ymgorffori tasgau personél staff i swyddi'r Rheolwyr yn hytrach na chael adain ar wahân. Mae'r newid hwn wedi bod yn un positif iawn. Mae'r Prifweithredwr a'r Penaethiaid Gwasanaeth wedi'u lleoli yn Nhŷ Rhydalun ac fe leolir y Rheolwyr gyda'r timau.

1 Prifweithredwr (LL/A)
2 Bennaeth Adran (LL/A)
4 Rheolwr (LL/A)
2 Uwch Weithiwr Allweddol (LL/A)
11 Gweithiwr Allweddol (7 LL/A a 3 RH/A)

4 Gweithiwr Cysgu Mewn
2 Weithiwr Prosiect (2 x 30awr)
1 Mentor Cyfoed (LL/A)
1 Cydlynydd Busnes (LL/A)
1 Derbynnydd (LL/A)
1 Swyddog Cyllid (LL/A)
1 Swyddog Cyfeiriadau (LL/A)
1 Swyddog Cymodi (RH/A)
1 Cynghorydd Personol (RH/A)

6.1 Hyfforddiant i Staff

Mae rhaglen hyfforddiant manwl iawn yn GISDA ac mae pob aelod o staff yn cael y cyfle i ennill y cymhwyster angenrheidiol i gyflawni eu swydd. Yn ychwanegol i hyn mae hyfforddiant craidd megis iechyd a diogelwch, amddiffyn plant, cymorth cyntaf ar gael yn rheolaidd.

Rydym wedi buddsoddi yn y rhaglen DYFODOL sydd yn caniatáu mynediad at nifer fawr o hyfforddiant drwy goleg Llandrillo a Choleg Menai sydd bellach yn un sefydliad. Rhaglen wedi derbyn cymhorthdal gan grant Ewrop ydyw er mwyn hybu hyfforddiant ymysg gweithlu yng Nghymru.

6.2 Cynllun Iechyd i Staff

Rydym wedi buddsoddi mewn cynllun iechyd ar gyfer bob aelod o staff GISDA gan gwmni 'Simplyhealth'. Gall staff hawlio arian am eu costau deintyddol, optegol, ffisiotherapi a sawl triniaeth arall. Gall staff hefyd hawlio costau aros mewn ysbyty ac mae opsiwn i ychwanegu parterniaiad a phlant pe dymunent.

7.0 Gwasanaethau

Prosiectau Gweithwyr Allweddol

Mae dau brosiect wedi'u lleoli ym Mlaenau Ffestiniog ac yng Nghaernarfon lle mae gwasanaeth craidd GISDA yn darparu gwasanaeth 1:1 i bobl ifanc.

Mae dwy ffrwd o fewn y gwasanaethau, 1 lle cefnogir pobl ifanc sengl a theuluoedd o fewn unedau GISDA a gwasanaeth cefnogi i bobl ifanc lle nad ydynt yn preswylio o fewn unedau GISDA.

Dyma'r eiddo rydym yn rheoli ar ran Tai Eryri a Thai Clwyd :

Enw	Perchennog yr eiddo	Math o lety
Hafan, Caernarfon	Tai Eryri	Hostel i 8 person ifanc sengl
Llys Meddyg, Blaenau Ffestiniog	Tai Eryri	Hostel i 4 person sengl
Fron Fawr, Blaenau Ffestiniog	Tai Eryri	Hostel i 4
Wenallt, Dolgellau	Tai Clwyd	2 fflat
Ffordd y Felin, Dolgellau	Tai Clwyd	2 fflat
1 Llwyn Hyfryd, Llanrug	Tai Eryri	Hostel Rhiant Sengl- 1 teulu
1 Maes Elim, Felinheli	Tai Eryri	Hostel Rhiant Sengl- 1 teulu
Cae Llwybr, Caernarfon	Tai Eryri	1 teulu
Glynllifon, Blaenau	Tai Eryri	1 teulu

Ffestiniog		
	CYFANSWM	**24 uned**

Yn ychwanegol i'r 24 uned uchod, rydym yn darparu gwasanaeth cefnogol i 32 person ifanc neu deulu. Mae sefyllfa ac amgylchiadau'r 32 yma yn amrywio :

- Gall y 32 yma fod yn byw gartref gyda'u rhieni ac angen cefnogaeth i gael llety eu hunain neu leoliad cartref ar fin torri lawr.
- Lleoliad cartref neu denantiaeth wedi torri lawr ac yn aros mewn llety anaddas h.y. yn ddigartref yn ôl y gyfraith.
- Tenantiaeth ar fin torri lawr ac angen cefnogaeth i barhau
- Trais yn y Cartref – angen cefnogaeth i chwilio am lety arall
- Wedi gadael gofal – ddim yn dymuno cefnogaeth Gwasanaethau Cymdeithasol bellach ac yn chwilio am lety eu hunain
- Wedi bod mewn carchar
- Anghenion dwys a chymhleth

Mae'r gweithwyr allweddol yn darparu gwasanaeth 1:1 ac yn dysgu sgiliau i fyw yn annibynnol drwy ddefnyddio'r system SEREN sef offeryn sydd yn mesur llwyddiant person ifanc i weld ym mha ffordd y gallwn eu cefnogi i ddatblygu eu hunain. Mae'n offeryn defnyddiol iawn a dyma'r penawdau rydym yn eu defnyddio :

- ❖ Iechyd a Lles Emosiynol
- ❖ Materion Moesol ac Emosiynol
- ❖ Sgiliau Byw
- ❖ Sgiliau Magu Plant
- ❖ Llety a Thenantiaeth
- ❖ Datblygiad Personol

Mae'r gweithwyr allweddol yn gyfrifol o fewnbynnu gwybodaeth i'n system SPRINT a fydd yn casglu data pwysig o ran amser a dreuliwyd gyda'r bobol ifanc ac ati a chofnod o unrhyw weithgaredd fel tystiolaeth. Mae llawer o waith wedi'u wneud er mwyn sicrhau bod y system wedi'u deilwro ar gyfer dibenion gwaith GISDA a'r nod yw gallu rhedeg adroddiadau angenrheidiol ar gyfer ein comisiynwyr.

Mae'r prif wasanaeth uchod i gyd yn cael eu hariannu gan grant Cefnogi Pobl. Grant yw hwn ar gyfer gwasanaethau sydd ddim o reidrwydd yn statudol ond ar gyfer pobl fregus ein cymdeithas sydd angen cefnogaeth. Mae newidiadau mawr i'r grant hwn dros y 5 mlynedd nesaf. Mae'r grant wedi cael ei weinyddu gan Lywodraeth Cymru ers 2003 a does dim newid wedi bod i'r swm a ddyrennir i'r un cwmni ers iddo ddechrau. Effaith hyn dros y blynyddoedd yw bod y dyraniad yn annheg a ddim yn cyd-fynd gyda'r galw /angen. Bu Gwynedd yn ffodus dros y blynyddoedd o gael rhaniad da gyda rhai siroedd yn Ne Cymru wedi colli allan yn sylweddol. Nod y newid yma yw sicrhau tegwch a chysondeb ar hyd a lled Cymru. Y cam cyntaf ymlaen i wireddu hyn yw dyrannu'r grant i'r Awdurdod Lleol i'w weinyddu. Bydd swyddog Cefnogi Pobl o Wynedd yn rhan o bwyllgor Rhanbarthol y Gogledd fydd yn gyfrifol o sicrhau cysondeb i'r dyfodol. Yna bydd y Pwyllgor Rhanbarthol yn atebol i Fwrdd Cynghori Cenedlaethol.

Un o brif rwystredigaethau'r drefn bresennol yw'r system 'tariff'. Mae'r system yn nodi faint o amser mae pob person angen o gefnogaeth a rhoddir gofynion anhyblyg iawn. Er enghraifft i'r 8 person ifanc sydd yn yr hostel yn Hafan, Caernarfon rhaid i bob un dderbyn 9.25 awr o wasanaeth yn wythnosol a rhaid adrodd ar hyn yn chwarterol fel amod y grant. Yr hyn sy'n amlwg yw nad yw anghenion pob person ifanc yr un fath ac weithiau nid oes angen hanner cymaint â hynny o oriau. Mae'r drefn bresennol yn mynd i gael ei newid ond rydym dal yn aros am sicrwydd pryd. Pan fydd y newid yn dod i rym, ein gobaith yw gallu darparu gwasanaeth i lawer mwy na 56 person ifanc / teulu.

7.1 Agor Drysau

Prosiect a ddatblygodd o'r hen gynllun Llwybr Llwyddiant yw Agor Drysau. Derbyniwyd grant o £289,000 gan y Gronfa Loteri fawr yn 2011 i redeg cynllun dros 3 blynedd. Cynllun sydd yn canolbwyntio ar roi cyfleoedd amrywiol i deilwro anghenion y bobl ifanc yw Agor Drysau. Gwneir pob math o weithgareddau ar hyd a lled y Sir a thu hwnt. Mae Agor Drysau yn achredu pobl ifanc am eu gwaith drwy Agored Cymru ac ers dechrau'r cynllun yn Ebrill 2011, mae dros 50 o bobl ifanc wedi llwyddo i ennill dros 100 o achrediadau. Rhai o fodiwlau gwaith yw 'cadw tenantiaeth', 'coginio', 'cyllido' ac mae nifer o bobl ifanc wedi llwyddo i dderbyn achrediadau am eu gwaith 'mosaics', 'ffotograffiaeth', 'garddio', 'Theatr Fforwm' a mwy. Mae'r prosiect wedi cael blwyddyn gyntaf lwyddiannus iawn ac mae cynlluniau cyffrous iawn i'w ddatblygu dros y ddwy flynedd nesaf. Mae gwasanaeth Mentor cyfoed llwyddiannus fel rhan o Agor Drysau a llwyddwyd i dderbyn grant o £10,000 gan y Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Gwynedd ar gyfer 2012-2013 i barhau gyda'r gwaith. Mae gwasanaeth Cymodi wedi datblygu strwythur hynod o effeithiol yn ei flwyddyn gyntaf. Rydym yn awyddus i ddefnyddio egwyddorion cymodi a chyfiawnder adferol yn ein gwaith bob dydd gyda phobl ifanc.

Rydym yn hynod ffodus bod Pennaeth Gwasanaethau Annibynnol yn Gwnselydd cymwysedig ac yn gallu darparu sesiynau cwnsela i bobl ifanc bregus o fewn GISDA. Yn ddelfrydol, byddai'n fanteisiol i'r cwmni gael cwnselodd ar wahân gan fod y swydd yma yn bwysau ychwanegol ar Bennaeth Gwasanaeth a pan mae rhestr aros, mae'n anodd ar adegau rhoi gwasanaeth amserol a chyflawn i'r bobl ifanc.

Mae Agor Drysau wedi cydweithio gyda nifer o asiantaethau er budd y bobl ifanc a rhagwelir y bydd hyn yn parhau. Un o brif lwyddiannau'r flwyddyn yw'r gwaith Theatr Fforwm, llwyddwyd i gael y cyfle i berfformio mewn colegau lleol, i asiantaethau megis Tai Gogledd Cymru, yn y Cynulliad yng Nghaerdydd, i elusen 'Grassroots' yng Nghaerdydd a'r pinacl fydd perfformio yn y Royal Theatre Hall yn

Llundain ym mis Gorffennaf. Dewiswyd GISDA allan o nifer o geisiadau i fod yn rhan o berfformiad mawr Streetwise Opera i ddathlu gwaith digartrefedd fel rhan o'r Gemau Olympaidd.

8.0 Polisïau

Mae bob polisi GISDA wedi cael eu hadolygu rhwng Ionawr ag Ebrill 2012. Rydym wedi'u darllen, diweddaru ac ychwanegu rhai newydd i sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn cyd fynd gydag unrhyw newid yn y gyfraith. Mae pob polisi a chanllaw yn y broses o gael eu gwirio gan gyfreithiwr y cwmni ac yna byddant ar gael yn ddwy ieithog yn electronig ac ar ffurf copi caled. Bwriad y Tîm Rheoli yw cynnal diwrnod gyda staff GISDA ym mis Awst 2012 i roi hyfforddiant byr ar unrhyw newidiadau ac atgoffa pawb o'u cynnwys.

Bwriedir adolygu pob polisi bob 3 blynedd oni bai bod angen gwneud cyn hynny oherwydd unrhyw newid. Eithriad i hyn fydd polisïau iechyd a diogelwch gan gynnwys tân, bydd y rhain yn cael eu hadolygu'n flynyddol.

9.0 Dangosyddion Perfformiad

Rydym yn adrodd ar ddangosyddion yn chwarterol. Defnyddir y dangosyddion hyn ar gyfer ein defnydd ein hunain i fesur ansawdd, i fonitro datblygiad y gwasanaeth ond mae'r adroddiad hefyd yn cael ei anfon at ein comisiynwyr. Bydd Cyngor Gwynedd, Llywodraeth Cymru, Loteri Genedlaethol yn cael copi yn chwarterol. Bydd yr adroddiad hefyd yn cael ei graffu bob 4 mis gan Fwrdd rheoli GISDA.

Prif bwrpas y dangosyddion yw er mwyn i ni ddadansoddi ac adnabod patrymau fel ei fod yn ein galluogi i gynllunio gwasanaethau priodol o fewn yr ardal briodol yn ôl yr angen.

Ar lefel mwy personol i'r person ifanc mae gennym system o'r enw 'SEREN' i fesur llwyddiant / datblygiad y person ifanc wrth gael gwasanaeth gan GISDA. Mae hefyd yn ffordd ddefnyddiol o feddwl am y canlyniad yn gyntaf a gosod targedau llai er mwyn gallu eu cyrraedd.

10.0 Marchnata

Rydym yn marchnata GISDA mewn sawl ffordd ac mae pob aelod o staff yn chwarae rôl bwysig iawn yn hyn. Mae'r cydlynydd Busnes wedi datblygu rhwydweithiau da a chysylltiadau arbennig gyda'r wasg yn lleol. Mae'r gwasanaeth estyn allan wedi datblygu nifer o bartneriaid hefyd ac yn cael llwyddiannau newydd yn arbennig yn yr ysgolion lleol. Rhestrir isod rhai o'n ffyrdd o farchnata yn ystod 2011-2012:

- Casglu arian a chodi ymwybyddiaeth mewn arfarchnadoedd
- Erthyglau a straeon yn y wasg
- Cyfweliadau teledu a radio
- Rhaglen ddogfen ar y teledu
- Sesiynau codi ymwybyddiaeth mewn ysgolion
- Sesiynau codi ymwybyddiaeth i asiantaethau e.e. Gwasanaethau Cymdeithasol, Ymwelwyr Iechyd, Capeli lleol a.y.b.
- Newyddlen chwarterol
- Gwefan
- Rhwydweithio a chydweithio gydag asiantaethau eraill
- Cyfryngau Cymdeithasol Facebook
- Twitter : Mae Twitter wedi ein galluogi i rannu ein gwaith yn genedlaethol ac mae elusennau mawr, enwogion, gwleidyddion a chomisiynwr wedi ail drydar ein gwaith fel bod cynulleidfa eang iawn yn dod i wybod am waith da GISDA
- Newydd gwblhau polisi Gwirfoddoli- gobeithio adeiladu ar hyn a chael gwirfoddolwr i'n cynorthwyo gyda'r gwaith marchnata

Ein bwriad yw adeiladu ar y gwaith da uchod gan sicrhau bod enw da GISDA yn parhau yn lleol ac yn genedlaethol.

11.0 Delwedd

Rydym yn edrych ar ffyrdd o ddatblygu ein delwedd drwy adolygu ein gwefan, gwella ein ffyrdd o gyfathrebu fel bod gwaith GISDA yn cael ei gyflwyno yn broffesiynol i'r cyhoedd.

Wrth ddatblygu Delwedd GISDA rydym yn awyddus i sicrhau nad ydym yn gwyro yn ormodol oddi wrth y ddelwedd bresennol oherwydd ein bod angen y cydbwysedd o fod yn broffesiynol ond sicrhau bod y neges mai elusen i bobl ifanc ydym.

11.1 Gwasanaeth Gofal Cwsmer

Mae staff GISDA yn parchu eu cwsmeriaiad ac yn deal mae cwsmer yw y defyddwyr gwasaneth, comisinywr ac unrhyw ymwelydd i'r swyddfa. Mae gan GISDA strategaeth sydd yn nodi sut i ateb ffon, sut i groesawu ymwelwyr sut i ymateb i lythyrau a sut i barchu pob unigolyn.

12.0 Menter gymdeithasol

Rydym wedi cwrdd â thrafod y cysyniad o Fenter Gymdeithasol ymysg y Tîm Rheoli a rhai aelodau'r Bwrdd. Mae syniadau arbennig iawn yn dod i law ond gwelwyd bod angen cyngor arbenigol i'n cynorthwyo i fynd i'r cam nesaf. Rydym wedi cyfarfod a thrafod gyda Chanolfan Cydweithredol Cymru ac maent wedi cadarnhau y gallent ein cynorthwyo drwy gyllido ymgynghorwr proffesiynol i hwyluso ein syniadau a'n cynorthwyo i ddatblygu Cynllun Busnes sydd yn arbennig ar gyfer Menter Gymdeithasol. Bydd y blynyddoedd nesaf yn anodd iawn o ran denu grantiau mawr a'r hyn yr hoffem ei wneud yw ehangu ein gorwelion fel nad ydym mor ddibynnol ar

grantiau i'r dyfodol. Gobeithir y bydd unrhyw gynllun newydd yn cyfuno ein hangen am adeilad mwy parhaol fel swyddfa a man gweithio gyda phobl ifanc, yn rhoi mynediad gwell ac yn fan i ddatblygu menter.

13.0 Incwm GISDA 2012-2013.

Mae cost yr uned yn un costus iawn gan na allwn roi mwy o wasanaeth nag i 56 person ifanc, wrth gynyddu'r 56 bydd cost yr uned yn lleihau.

Fe gwblhaodd Syr Mansel Aylward adroddiad gydag argymhellion i newid trefn y grant yn 2010. Dros y 18 mis diwethaf mae gwaith ymgynghori wedi bod yn cymryd lle ac mae un arall ar y gweill ar amser yr adroddiad hwn. Dyddiad cau'r ymgynghoriad yw Mehefin 2012. Ar hyn o bryd mae'r grant yn parhau i gael ei weinyddu gan y Llywodraeth ond gobeithir y bydd yn cael ei drosglwyddo i'r Awdurdodau ym mis Awst 2012.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi toriad o 2.19% i'r grant rhwng Ebrill 2012 ac Awst 2012 a byddant wedyn yn rhoi 2.81% o doriad pan fyddan yn trosglwyddo'r grant i'r Awdurdod Lleol.

Mae Gwynedd fel Sir yn derbyn 23% o doriad i'r grant rhwng 2012-2017. Bydd Cyngor Gwynedd yn gorfod paratoi Cynllun Cyllido'r Grant erbyn Hydref 2012 ac o hwnnw bydd hi'n gliriach pa feysydd fydd yn cael blaenoriaeth ym mis Ebrill 2013. Mae Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo i sicrhau na fydd yr un elusen /cwmni yng Ngwynedd yn dioddef o unrhyw doriad yn 2012-2013.

Mae'r amserlen wedi llithro dro ar ôl thro oherwydd nifer o resymau. Er bod risg uchel i GISDA gael toriad sylweddol i'r grant, rydym yn cefnogi egwyddor y newid ac yn cydweithio gyda nifer o asiantaethau i sicrhau'r effaith lleiaf posibl i ddefnyddwyr gwasanaeth.

Gweler isod ein ffynonellau incwm ar gyfer y flwyddyn hon yn unig. Gelwir y flwyddyn hon yn flwyddyn 'trosiannol' gan y cynlluniau Cefnogi Pobl yn bennaf oherwydd ein bod yn parhau i aros am y canllawiau Cefnogi Pobl derfynol gan y Llywodraeth Cymru a hefyd oherwydd ei bod yn flwyddyn ar gyfer cynllunio newid

Ffynhonnell	**Swm £**
SPRG	711,015
Loteri Fawr	94,356
Cyngor Gwynedd Gwasanaethau Cymdeithasol	41,960
Cyngor Gwynedd Gwasanaeth Ieuenctid	10,000
Section 180	29,172
Incwm Rhent	160,000
Arall	3000
Cyfanswm	1,049.503

Nid yw'r tabl isod yn cynnwys y toriad o 2.19% sef £5,190 dros 4 mis gan fod Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo i'n digolledu am y flwyddyn ariannol hon.

13.1 Cronfeydd cyfyngedig ac anghyfyngiedig

Mae GISDA yn ffodus iawn o ran ei sefyllfa ariannol a thros y blynyddol wedi sicrhau cronfa iach iawn. Rydym am osgoi gwario'r arian hwn i gadw gwasanaethau sydd yn dod i ben oherwydd lleihad yn y grant ac yn derbyn y bydd angen i ni newid ein blaenoriaethau. Byddem yn hoff o ddefnyddio peth o'r arian i ychwanegu at grant i gael adeilad mwy pwrpasol fel bod unrhyw ddefnydd o'r arian yn fuddsoddiad tymor hir lle bydd potensial i unrhyw wariant godi mewn gwerth a lle bydd modd cael yr arian yn ôl petai angen drwy werthu adeilad. Bydd Dofydd o'i fath o'r arian yn rhoi sicrwydd i'r cwmni

14.0 GISDA 2015 - Y Dyfodol

Wrth gwblhau'r cynllun hwn mae'r ansicrwydd ynglŷn â'n hincwm dros y blynyddoedd yn ei gwneud hi'n anodd cwblhau cynllun pendant. Mae'n bur debyg y bydd GISDA yn edrych yn wahanol iawn erbyn dechrau 2014 gan fod yr holl ganllawiau Cefnogi Pobl yn eithaf clir nad yw'n drefn bresennol yn gynnaladwy na dichonadwy yn y tymor hir. Gelwir y flwyddyn ariannol hon sef 2012-2013 yn 'flwyddyn drosiannol' sef blwyddyn ar gyfer cynllunio ymlaen a rhagwelir y bydd cynllun arfaethedig ar gael gan y Cyngor erbyn diwedd y flwyddyn ariannol ar yr blaenoriaeth yn 2013-2014 a sut maent yn bwriadu dyrannu'r arian. Mae GISDA wedi bod yn trafod y posibilrwydd o greu consortia gydag asiantaethau sydd yn cynnig yr un math o wasanaeth, mae hwn yn opsiwn ond rydym yn parhau i edrych ar bob posibiliad.

15.0 Rhaglen waith dros y tair blynedd nesaf

Sefyllfa GISDA

- ✓ Y nod yw na fydd GISDA yn derbyn dim llai o incwm na 2012-2013 yn 2016-2017 ond yn derbyn bod angen ymchwilio am ffynhonnell eraill er mwyn cyrraedd y nod hwn.

- ✓ Rydym yn eithaf parod i edrych ar derfynau oedran gwasanaeth i'r dyfodol petai angen h.y. gweithio gyda phobl ifanc 15 oed ac oedolion efallai hyd at 35 oed.

- ✓ Rydym yn fwy na parod i weithio mewn siroedd oddi allan i Wynedd a chydweithio gydag asiantaethau eraill e.e. Di Gartref Ynys Môn.

Cefnogi Pobl

- ✓ Mae staff GISDA yn deall bod newid o'n blaenau gyda'r grant Cefnogi Pobl ac mae teimlad bod pawb yn cefnogi'r newid h.y. wedi bod yn rhwystredig eu hunain gyda'r system 'tariff'.

- ✓ Parhau i gadw ein hymarfer da ac osgoi foidiau yn y prosiectau. Angen cynllunio 'mlaen i wneud y defnydd gorau o'n heiddo h.y. parhau gyda'r ymarfer presennol.

- ✓ Rydym yn derbyn bod costau Rheoli a chanolog GISDA yn uchel a bod angen adolygu hyn pan fydd canllawiau newydd Gefnogi Pobl yn dod i rym diwedd y flwyddyn- sicrhau ein bod yn paratoi staff ar gyfer hyn a derbyn efallai y bydd rhaid newid.

- ✓ Datblygu gwasanaeth wedi'u deilwro ar gyfer pobl ifanc sydd yn fwy bregus e.e. cyn troseddwyr, anabledd dysgu

- ✓ Parhau i gadw'r arbenigedd o fewn staff y cynlluniau

- ✓ Edrych ar y posibilrwydd o hyfforddi rhai staff mewn maes arbennig e.e. Camddefnyddio Sylweddau, Trais Domestig

- ✓ Yn dilyn unrhyw newid, ac yn dilyn canllaw cyllido bydd hi'n anorfod bod GISDA yn ail strwythuro ac yn ail flaenoriaethu'r gwasanaeth i gyd fynd gyda'r angen.

Datblygu Agor Drysau

- ✓ Byddem yn barod i gydweithio gyda sefydliadau addysgol i ddarparu addysg amgen i bobl ifanc sydd ddim mewn addysg na hyfforddiant a hefyd i bobl ieuengach oedran ysgol petai'r cyfle yn dod

- ✓ Gobeithiwn allu bod mewn sefyllfa lle gallwn gynnig gwasanaethau Agor Drysau i bobl ifanc eraill o fewn Gwynedd.

- ✓ Edrych ar adeiladu ar ein gwaith gyda rhieni ifanc led y Sir.

- ✓ Gyda llwyddiant Theatr Fforwm, mae pob math o bosibiliadau i ddatblygu adain theatrig a chelfyddydol o fewn GISDA.

- ✓ Parhau i adeiladu ar y gwaith cwnsela, cymodi, Mentor Cyfoed a chynghorydd Personol

- ✓ Sicrhau bod gweithwyr prosiect Agor Drysau wedi derbyn hyfforddiant ar sgiliau Dysgu- cymhwyster fel PETAL.

Datblygiadau eraill sydd yn cael ei ystyried

- ✓ Edrych ar gynllun Pantri Pobl a gweld sut all GISDA ddatblygu cynllun bwyd i bobl ifanc sydd wir mewn angen.

- ✓ Parhau i gydweithio gyda Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd ac adeiladu ar y gwaith o ddarparu gwasanaeth i bobol ifanc a fu mewn gofal yr Awdurdod ac wedi gadael.

- ✓ Erbyn diwedd y 3 blynedd bod gan GISDA adeilad eu hunain yng Nghaernarfon o'n heiddo ni sydd yn bwrpasol fel nad oes angen 3 Swyddfa. O fewn yr adeilad bydd yn fan ar gyfer adeiladu Cynllun Busnes yn benodol ar ddatblygu Menter Gymdeithasol gan gydweithio gyda'r Ganolfan Gydweithredol Cymru.

- ✓ Datblygu Cynllun o wirfoddolwyr 'Ffrindiau GISDA' neu 'Cyfeillion GISDA'

- ✓ Datblygu ac adeiladu ar ein gwaith estyn allan.

- ✓ Sicrhau bod pob rheolwr wedi cymhwyso ac wedi derbyn hyfforddiant.

- ✓ Datblygu sgiliau'r Tim Rheoli i weithio yn y dull *RBA – Result Based Accountability / Atebolrwydd yn seiliedig ar Ganlyniadau*

Datblygu effeithlonrwydd

- ✓ Edrych ac adolygu costau Darparwyr Allanol GISDA i gyd e.e. Costau Cyfreithiol, Tanwydd etc

- ✓ Edrych ar y posibilrwydd o werthu elfennau o'n gwasanaeth e.e. hyfforddiant.

- ✓ Datblygu ein gwasanaeth mewn 'pod' mewn ardaloedd lle nad oes gennym swyddfa e.e. Bangor, Pwllheli, Abermaw - hyn yn arbed d costau teithio ac yn wasanaeth gwell i'r bobl ifanc yn eu cymunedau.

- ✓ Addasu yn unol â'r newidiadau i'r grant Cefnogi Pobl

- ✓ Adolygu a dadansoddi patrymau gwariant er mwyn adnabod arbeidion posibl.

- ✓ Edrych ar ffyrdd o Fuddsoddi i Arbed e.e. Buddsoddi £100,000 o'r gronfa wrth gefn i sicrhau bod yr arian cyfalaf yn tyfu.

16.0 Blaenoriaethau ac Amserlen

Rhaglen Waith	Sylwadau	Cyfrifoldeb	Amserlen
Grant Cefnogi Pobl	Sicrhau ein bod yn ymwybodol o unrhyw newidiadau a'n bod yn ymateb yn brydlon a phriodol	Pennaeth Gwasanaethau a Thîm Rheoli	Yn parhau
Grant Cefnogi Pobl	Adolygu Costau Canolog GISDA ac edrych ar opsiynau cydweithio er mwyn lleihau costau	Tîm Rheoli	Hydref 2012-Mawrth 2013
Grant Cefnogi Pobl	Parhau i drafod posibiliadau consortia a chynnig syniadau i Gyngor Gwynedd	Pennaeth Gwasanaethau cefnogol a Thîm Rheoli	Hydref 2012
Grant Cefnogi Pobl	Datblygu cynllun i weithredu unrhyw newid bydd yn cael ei gyflwyno i'r cynlluniau	Pennaeth Gwasanaethau Cefnogol	Hydref 2012
Ail Strwythuro	Pan fydd newid i tariffs yn cael ei gyflwyno bydd	Prifweithredwr	Datblygu Cynllun erbyn diwedd Mawrth 2013

	angen edrych ar ail strwythuro'r gwasanaethau i gyd fynd gyda'r holl Gwmni		
Grantiau Cyffredinol	Bod yn rhagweithiol wrth edrych ac ymgeisio am grantiau	Tîm Rheoli a Rheolwyr	Yn parhau
Grant 'People and Places' Loteri Fawr	Gwneud cais ar y cyd gyda'r Ganolfan Gydweithredol am adeilad aml bwrpas fydd yn cynnwys swyddfeydd, man gweithio gyda phobl ifanc, ystafell gyfarfod a phosibilrwydd o le i ddatblygu cynllun busnes	Tîm Rheoli	2014-2015 ond yn dechrau'r gwaith cynllunio mis Mai 2012
Grant Dyfodol Disglair Loteri Fawr	Cydweithio gydag asiantaethau eraill megis SNAP Cymru, Trais yn y Cartref De Gwynedd i ennill grant ar gyfer datblygu gwaith	Prifweithredwr	Os yn llwyddiannus yng ngham 1 (ymateb ym mis Mehefin 2012) yna cydweithio ar adeiladu'r cynllun ar gyfer mis

	gyda rhieni ifanc		Tachwedd 2012
Grantiau Celfyddydol	Chwilio am grantiau i ddatblygu gwaith Theatr Fforwm, perfformio, celf	Pennaeth Gwasanaeth Annibynnol	2012-2013
Agor Drysau	Grant loteri yn dod i ben yn 2014- angen sicrhau drwy grant arall neu gyfuno'r grantiau uchod bod y ddarpariaeth yn parhau ac ar gael mewn canolfannau eraill ar hyd Gwynedd	Pennaeth Gwasanaethau a Thîm Rheoli	
Ymgynghori	Ymgynghori gyda phobl ifanc ar fenter gymdeithasol	Swyddog Cyfeiriadau a Mentor Cyfoed dan arweiniad y Tîm Rheoli	2013-2014 Ddim eisiau gwneud yn rhy fuan
Gwaith Codi Ymwybyddiaeth	Parhau i fynychu asiantaethau, digwyddiadau ac ysgolion	Cydlynydd Busnes, Swyddog Cyfeiriadau a Mentor Cyfoed	Parhau
Mentor Cyfoed	Datblygu Strategaeth i annog mwy o	Mentor Cyfoed dan arweiniad ei Reolwr a Phennaeth	Tachwedd 2012

	bobl ifanc wirfoddoli fel Mentor Cyfoed	gwasanaethau annibynnol	
Cymodi	Parhau i godi ymwybyddiaeth am y gwaith ac edrych i wneud y gwaith ar ran mudiadau eraill e.e. yr Heddlu	Swyddog Cymodi dan arweiniad Pennaeth Gwasanaethau annibynnol	Mawrth 2013
Cwnsela	Cydweithio gyda RASA (Rape and Sexual Assault) i geisio ennyn grant i gyflogi cwnselodd llawn amser i weithio ar draws RASA a GISDA	Swyddogion RASA a phennaeth Gwasanaethau Annibynnol	Erbyn dechrau'r flwyddyn ariannol 2013-2014
Cynghorydd Personol	Parhau i ddarparu'r gwasanaeth tra mae'r cytundeb yn parhau (hyd at Fawrth 2014)	Cynghorydd Personol	Parhau
Ceisio bod yn rhan o Fframwaith Asesu'r Cyngor yn Nhendr Gwaith pobl ifanc ôl ofal	Cwblhau'r tendr	Prifweithredwr a Thîm Rheoli	Mehefin 2012

Consortia Addysg	Rydym mewn trafodaethau Ceredigion Care Society, Digartef Ynys Môn, Clwyd Alyn i edrych ar ddarpariaeth addysg amgen ac edrych am gyfleoedd i ennill tendrau ar y cyd.	Cyfrifoldeb pob asiantaeth	Yn parhau ag edrych i ennill grant Ewrop 2014-2020
Swyddfa	Yn dilyn y pwynt bwled uchod- mae'n gynllun gennym i gael adeilad mwy pwrpasol cyn gynted â phosibl, yn ddelfrydol hoffem gael adeilad newydd wedi'u hadeiladu, yng nghanol tref ond os nad yw hyn yn bosibl rhaid efallai edrych ar rentu rhywle mwy addas	Prifweithredwr	Yn parhau
Adnoddau'r Cwmni	Rydym wedi	Staff GISDA i gyd dan	Dechrau mis Mai

2 gar	gwneud 1 cais am grant i gael car ond heb arian ychwanegol rhaid derbyn nad yw'n opsiwn prynu car newydd. Rhoi targed penodol i ni ein hunain i brynu cludwr pobl 7 sedd a defnyddio'r rhoddion at ddiben penodol. Posibiliadau o bob math i gasglu arian.	arweiniad y Prifweithredwr	2012
Hyfforddiant a Goruchwyliaeth staff	Parhau i sicrhau bod y ddwy elfen yma yn flaenoriaeth er mwyn sicrhau gwasanaeth o safon uchel	Prifweithredwr a Thîm Rheoli	Yn parhau
Adolygu cytundebau gyda darparwyr allanol ac ail dendro pan fydd newid yn digwydd i'n grantiau	Cytundeb Cyfreithiol	Prifweithredwr a Thîm Rheoli	Yn parhau

Datblygu Polisi Iaith	Adnewyddu Cynllun Iaith a sicrhau y bydd y Comisiynydd Iaith yn y Llywodraeth yn ei gymeradwyo	Prifweithredwr	Yn parhau- aros am ganllawiau Iaith newydd gan y Llywodraeth
Datblygu Polisi Amgylcheddol	Rydym yn awyddus i fod yn gwmni cyfeillgar i'r amgylchedd a bydd polisi fel hyn yn ein cynorthwyo i ddefnyddio darparwyr lleol a lleihau ein defnydd o garbon Ceisio cael y logo 'Greendragon' er mwyn dangos ein safon- bydd y safon hon yn mynd ochr yn ochr gyda Buddsoddwyr mewn pobl.	Pennaeth Gwasanaethau Annibynnol	Cyn Awst 2012
Buddsoddwyr Mewn Pobl	Wedi llwyddo yn yr adolygiad mis		Parhau i gadw'r safon

	Mawrth 2012- parhau gyda'r gwaith da ac adolygu ymhen 3 blynedd		
Safonau Gwasanaeth	Mae angen datblygu strategaeth sydd yn nodi safonau Gwasanaeth GISDA	Prifweithredwr a'r Tîm Rheoli	Mawrth 2013
NEET	Mae'r Llywodraeth wedi lansio gwasanaaeth newydd ym mis Mai 2012 er mwyn ymateb i'r broblem difrifol NEET sydd yng Nghymru ar hyn o bryd. Posibilrwydd o ymgeisio am grantiau NEET a hefyd posibilrwydd o grant arall penodol gan y Loteri Fawr	Prifweithredwr a'r Tim Rheoli	Sicrhau ein bod yn ymwybodol o unrhyw gyfle i gael rhagor o adnoddau i ddatblygu'r prosiectau gyda phobl ifanc NEET.